## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL 2012/13 EITEM RHAGLEN:

| Dyddiad 2012 | Eitem gan: | PWNC YR ADRODDIAD | CANLYNIAD A DDYMUNIR/PWRPAS YR ADRODDIAD *"Beth ydych chi'n dymuno ei gael o'r Pwyllgor Sgriwtini h.y. ar ffurf penderfyniad?"* | PANELAU CANLYNIAD SGRIWTINI |
|---|---|---|---|---|
| **4 Mawrth 2013** | BPG 19/11 –Ch2 3/12 10/12 | Adroddiad Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2012/13 – Chwarter 3 (Hydref-Rhagfyr 2012) | | |
| | | Adroddiad Monitro Perfformiad Corfforaethol 2012/13 – Chwarter 3 | | |
| | " | Llywodraethu Gwybodaeth | | |
| | PSC 8.10.12 | Cynllun Gweithredu Absenoldeb Salwch | | |
| | PSC 8.10.12 | **Cofrestr Risg Gorfforaethol** (bydd Aelodau'n cael hyfforddiant ym mis TACHWEDD. Maent wedi gofyn am ddiweddariad ynghylch y Strategaeth/Meini prawf ar gyfer y Gofrestr Risg fel y gellir asesu risgiau'n gorfforaethol. | | |
| | PSC 8.10.12 | **Gwasanaethau Cyfieithu** - ar gais y Cynghorydd G.O. Parry, Aelod Portffolio. Bydd Rheolydd yr Uned Gyfieithu yn cyflwyno adroddiad er gwybodaeth oherwydd hyd y rhaglen ar gyfer cyfarfod mis Mawrth. | | |
| | PSC 8.10.12 | **Compact Llywodraeth Cymru** – i lawr ar gyfer BPG 10/12/12 er gwybodaeth? | | |
| | PSC 8.10.12 | **Gorwariannau Cyllidebol** - adroddiadau misol yn mynd i'r Pwyllgor Gwaith neu'r Cyfarfodydd Cynaliadwyaeth ar 8.10.12 Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr ??? wedi sefydlu gweithgor a gofynnwyd i'r Cynghorydd E.S. gynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini arno. | *Inaugural meeting 15th November2012.* | |
| | BPG 10.12.12 | Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol | | |
| | 10.12.12 | Adnewyddu Democrataidd | | |
| | BPG 14/1/13 | Compact Sector Gwirfoddol | | |
| | 18/3/13 | Newidiadau Cyfansoddiadol | | |
| | 18/3/13 | Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol | | |

Fel ar 16/11/12.

**<u>ALLWEDD</u>: BPG** = Blaenraglen y Pwyllgor Gwaith. **PSC** = Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (yn codi ohono).

**<u>Paratoi ar gyfer Pwyllgorau Sgriwtini</u>:**

Ers Tachwedd 2010, bu cylch paratoi o 21 diwrnod ar gyfer Sgriwtini a gweithrdewyd y meini prawf isod ar gyfer dyddiadau cau *[Nodyn: mae'r dyddiadau eisoes wedi eu rhannu gyda phob aelod o'r TUA a Phenaethiaid Gwasanaeth]:-*

- **Cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr a'r Swyddog Sgriwtini Arweiniol i gytuno ar faterion ymarferol ar gyfer cynnwys eitemau ar y rhaglen ac adroddiadau ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini = 21 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod.**

- **Angen yr holl adroddiadau drafft (**wedi eu gweld a'u cytuno gan y Cyfarwyddwr perthnasol**) ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol i'w gweld = **2 ddiwrnod gwaith cyn i'r Adain Bwyllgorau eu hanfon.**

- **<u>Anfon rhaglenni Pwyllgor</u>:** Mae angen cyflwyno'r holl adroddiadau terfynol wedi eu cyfieithu i'r Uned Bwyllgorau **o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn dyddiad y cyfarfod oherwydd, yn unol â'r gyfraith, rhaid i'r Aelodau a'r cyhoedd gael y cyfnod hwnnw i ddarllen y rhaglen a'r papurau**

Ers y cyfarfod o'r Grŵp Llywio Sgriwtini a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2012 a'r Cyngor Sir ym Mai 2012;

- **Cyflwyno cyfarfodydd briffio <u>Sgriwtini</u>** chwarterol **= 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod (yn cysylltu gyda **uchod).**

Gan bydd gostyngiad yn nifer yr aelodau etholedig yn Ynys Môn ac Etholiad ym Mai '13, mae'n debygol y bydd nifer y Pwyllgorau Sgriwtini yn gostwng o 5 i 3 neu 2. Byddai hynny'n creu rhagor o gapasiti ar gyfer aelodau a swyddogion i wneud gwaith mewn Panelau Canlyniad Sgriwtini yn unol â blaenoriaethau corfforaethol y cytunwyd arnynt, gan sicrhau y gall y swyddogion sgriwtini ychwanegu gwerth at y broses lywodraethu.

Rydym ar hyn o bryd yn rhoi sylw i'r pynciau a gafwyd yn ôl gan y Penaethiaid Gwasanaeth ac sydd wedi eu rhannu bellach gyda'r Cadeiryddion Sgriwtini er mwyn creu rhestr o Banelau Canlyniadau Sgriwtini ar gyfer 2012/13-2013/14. Byddwn yn eu hanfon atoch cyn gynted ag y bo modd.

***<u>Rheolydd Sgriwtini, Tachwedd 2012</u>***